**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**
**11/10/24**

**Yn bresennol:** Cadeirydd: Y Cynghorydd Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

**Y Cynghorwyr:** Robin Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Dave Hughes (Cyngor Sir y Fflint), Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Barry Mellor (Cyngor Sir Ddinbych) ac Edgar Owen (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).

**Prif Swyddogion:** Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd), Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam) a Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych).

**Swyddogion Statudol**
Dewi Morgan (Prif Swyddog Cyllid) a Claire Incledon (Cyfreithiwr a'n dirprwyo i'r Swyddog Monitro).

**Swyddogion eraill yn bresennol**
Alwen Williams (Prif Weithredwr Dros Dro'r CBC), David Hole (Rheolwr Rhaglen Gweithredu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig), Sian Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol), Jack Latkovic (Swyddog Democratiaeth Cydbwyllgor Corfforedig) a Sioned Mai Jones (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:

- Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd)
- Y Cynghorydd Gary Pritchard (Cyngor Sir Môn) gyda'r Cynghorydd Robin Williams yn dirprwyo.
- Iwan Evans (Swyddog Monitro)
- Iwan Jones (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 6 Medi, 2024 fel rhai cywir.

**5. DIWEDDARIAD CYNNYDD AR SEFYDLU'R CBC**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams, Prif Weithredwr Dros Dro'r CBC.

**PENDERFYNWYD:**

1. **Derbyn y diweddariad, y cynnydd sydd wedi'i wneud ar gyfer trosglwyddiad arfaethedig y Cynllun Twf, ei gyllid a'r PMO i'r CBC, ond yn cydnabod yr her a'r rhesymau a amlinellir dros yr oedi, a fydd yn effeithio ar y cynlluniau presennol i drosglwyddo ar 1 Tachwedd, 2024.**
2. **Cyfarwyddo cyflwyno adroddiad pellach ar nodi dyddiad trosglwyddo diwygiedig a'i gefnogi gan asesiad risg cynhwysfawr a chynllun manwl.**

**TRAFODAETH**

Darparwyd crynodeb o'r adroddiad oedd yn diweddaru aelodau'r CBC ar y cynnydd sydd wedi'i wneud i sefydlu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, sy'n cynnwys trosglwyddo'r Cynllun Twf, ei gyllid a'r Swyddfa Rheoli Portffolio.

Atgoffwyd y Cyd-bwyllgor o'r cefndir a'r penderfyniad gwreiddiol a oedd yn benderfyniad mewn egwyddor gan fod deddfwriaethau sy'n ymwneud â'r CBC yn parhau i ddatblygu. Nodwyd bod y gwaith yn ymwneud â'r cynllun rhaglen i adnabod a lliniaru risgiau posib a all effeithio ar y trosglwyddiad ar y 1[af] o Dachwedd yn parhau. Soniwyd am y materion cyfreithiol allweddol sy'n cael eu datblygu fel sydd wedi eu nodi yn rhan 5.2 o'r adroddiad cyn son am yr heriau all achosi oedi.

Cydnabuwyd y cynnydd sylweddol sydd wedi ei wneud ar y rhan fwyaf o agweddau'r prosiect ond y bydd y broses yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl a bod cynllunio argyfwng ar y gweill er mwyn diffinio os fydd modd cyflawni rhai elfennau o'r trosglwyddiad eleni a'r hyn fyddai'n trosglwyddo yn 2025. Ategwyd ei fod yn newid cymhleth sydd yn cynnwys trosglwyddo pobl i gorff corfforaethol newydd ac felly cyfrifoldeb i sicrhau bod y corff hwnnw yn barod i dderbyn y bobl ac i'r trefniadau gweithio fod yn ddigonol.

Diolchodd y Cadeirydd i Brif Weithredwr dros dro'r CBC am yr adroddiad cynnydd cynhwysfawr gan ddiolch am ei hamynedd wrth geisio trosglwyddo'r Cynllun Twf. Adroddwyd bod Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio'n ofnadwy o galed i gyrraedd y targedau. Gobeithir gallu cyrraedd y targed o ran y dyddiad anelir amdano ond cydnabuwyd y gallai hyn fod yn heriol a dyna pam bod angen dyddiad trosglwyddo diwygiedig wrth gefn.

Nodwyd bod yr adroddiad yn un clir ac yn manylu ar y gwahanol bryderon a'r cymhlethdodau amrywiol sydd ynghlwm â'r broses o sefydlu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

## 6. IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL – AELODAETH GYFETHOLEDIG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Claire Incledon (Cyfreithiwr a'n dirprwyo i'r Swyddog Monitro).

**PENDERFYNWYD cymeradwyo penodi'r aelodau cyfetholedig a ganlyn (heb bleidlais) i Is-Bwyllgor Trafnidiaeth Strategol y CBC:**

- **Cynrychiolydd Parc Cenedlaethol Eryri**
- **Cynrychiolydd Trafnidiaeth Cymru**

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi bod cyfarfod cyntaf Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol y CBC wedi ei gynnal ar y 1[af] o Hydref. Nodwyd bod yr adroddiad hwn yn gofyn am gymeradwyaeth i benodi dau aelod cyfetholedig i'r Is-bwyllgor sef Cynrychiolydd Parc Cenedlaethol Eryri a Chynrychiolydd Trafnidiaeth Cymru.

Tynnwyd sylw at un gwall yn yr adroddiad oedd yn argymell y byddai'r penodiadau yn weithredol am gyfnod cychwynnol tan 31 Mawrth 2025; nodwyd mai tan 31 Mawrth 2026 yw'r cyfnod cywir.

Nid oedd unrhyw gwestiynau na sylwadau pellach.

**7. CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL – ADRODDIAD CWMPASU ARFARNU LLES INTEGREDIG**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams, Prif Weithredwr Dros Dro'r CBC.

**PENDERFYNWYD derbyn a chymeradwyo Adroddiad Cwmpasu IWBA, gan gynnwys yr atodiadau technegol (ar gael ar gais), sy'n rhaid eu paratoi i gefnogi'r CTRh, fel yr argymhellwyd gan yr Is-Bwyllgor Trafnidiaeth Strategol**.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad oedd yn cyflwyno'r gwaith i ddatblygu Adroddiad Cwmpasu Arfarniad Lles Integredig (IWBA) sy'n ofynnol er mwyn i'r Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol alluogi'r CBC i gyflawni ei ddyletswyddau statudol.

Nodwyd ei bod yn ofynnol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig gynhyrchu Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol a Chynllun Cyflawni Trafnidiaeth Ranbarthol erbyn 31 Mawrth 2025. Adroddwyd bod yr IWBA yn gam hanfodol yn y cynllun map ffordd a bod yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol yn ei gyfarfod ar y 1af o Hydref wedi mabwysiadu adroddiad Cwmpasu IWBA ac yn argymell bod y CBC yn cymeradwyo'r camau i fynd â'r gwaith ymlaen i'r cyfnod ymgynghori cwmpasu.

Darparwyd y cefndir a'r ystyriaethau perthnasol fel sydd wedi eu nodi yn rhan 4 o'r adroddiad. Amlygwyd bod atodiadau technegol ar gael ar gais, nodwyd nad ydynt wedi eu cynnwys efo'r adroddiad.

Diolchwyd i Brif Weithredwr dros dro'r CBC am yr adroddiad.

8. **PARTH BUDDSODDI SIR Y FFLINT A WRECSAM**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams, Prif Weithredwr Dros Dro'r CBC.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**TRAFODAETH**

Nodwyd bod yr adroddiad yn un ar y cyd rhwng Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam, Prif Weithredwr Cyngor Sir y Fflint a Prif Weithredwr dros dro'r CBC. Adroddwyd mai pwrpas yr adroddiad yw darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Parth Buddsoddi newydd yn Sir y Fflint a Wrecsam sy'n canolbwyntio ar Weithgynhyrchu Uwch. Amlygwyd bod y Parth Buddsoddi yn canolbwyntio ar fuddsoddiadau yn Sir y Fflint a Wrecsam ond disgwylir iddo gael effeithiau buddiol ehangach ar draws y Gogledd.

Adroddwyd bod cynnydd da yn cael ei wneud ar ddatblygiad Porth 2 a bod y ddogfen Porth 2 ddrafft wedi ei pharatoi ar gyfer ei hadolygu'n ffurfiol gan y Llywodraeth. Nodwyd bydd Porth 3 yn dilyn diwedd mis Tachwedd unwaith y bydd Porth 2 wedi cael ei gymeradwyo.

Nodwyd bod yr adroddiad yn rhoi trosolwg o Safleoedd Treth arfaethedig ac eglurwyd y gall y Parth Buddsoddi gael tri Safle Treth, hyd at 200ha yr un. Cyfeiriwyd ar ran 5 o'r adroddiad oedd yn manylu ar y Safleoedd Treth a'u buddion gan nodi bod potensial i gefnogi dros 6,400 o swyddi newydd. Nodwyd y bydd adroddiad pellach efo mwy o fanylion a chrynodeb o'r cyfle i ddilyn ar ôl i waith pellach gael ei wneud.

Soniwyd am strwythur cyflawni ac adnoddau'r Tîm Parth Buddsoddi a chyfeiriwyd at yr enghraifft o strwythur arfaethedig y tîm a nodwyd yn rhan 9.4 o'r adroddiad.

Diolchwyd i Brif Weithredwr dros dro'r CBC am y diweddariad a'r cyflwyniad gan nodi fod yr adroddiad yn un cynhwysfawr. Mynegwyd diolchiadau hefyd i'r ddau Awdurdod Lleol sydd yn cydweithio gan nodi fod hyn yn elfen bwysig a diolchwyd i awduron yr adroddiad.

Mynegwyd fod y gwaith i weld yn symud yn ei flaen yn sydyn a datganwyd balchder am yr hyn sydd wedi ei gyflawni hyd yma. Credwyd bod rhyngweithio da gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i yrru'r cynllun yn ei flaen, nodwyd bod hyn yn rhywbeth positif ac yn angenrheidiol.

Mynegwyd balchder o weld safle Warren Hall yn yr adroddiad ac ymfalchïwyd bod rhywbeth bellach yn cael ei wneud yma. Datganwyd fod y datblygiad yn ddarn cyffrous o waith, nodwyd bod yr agwedd o greu swyddi a'r agweddau o dwf economaidd yn enfawr ac yn rhywbeth i fod yn falch ohono.

Dechreuodd y cyfarfod am 13:30 a daeth i ben am 14:00.

___________________________________
(Cadeirydd)